## Sut i wneud cais Rhyddid Gwybodaeth

**Atebwch y 7 cwestiwn a ganlyn, os gwelwch yn dda.**

### 1. A yw eich cais ynghylch cwmni yr ydym yn ei reoleiddio ar hyn o bryd (neu wedi'i reoleiddio yn y gorffennol)?

Os ydyw, rydym eisoes yn cyhoeddi llawer o wybodaeth ynghylch y cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio a'u hawdurdodi. Hefyd, rydym yn rhoi manylion y cwmnïau hynny nad ydynt wedi'u hawdurdodi ac unigolion y dylech eu hosgoi.

Mae llawer o'r wybodaeth sydd gennym ynghylch cwmnïau (ac unigolion) yn wybodaeth yr ydym wedi'i derbyn yn ystod ein gwaith rheoleiddio dydd-i-ddydd. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wybodaeth gan ddefnyddwyr, cwmnïau a phobl eraill yr ydym yn eu rheoleiddio, newyddiadurwyr, rheoleiddwyr eraill, yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith a'r llywodraeth.

Mae hon yn 'wybodaeth gyfrinachol' ac yn gyffredinol mae wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu, sy'n golygu na allwn ei rhoi i chi. Gallai hyn fod yn wybodaeth y mae'r cwmni wedi'i rhoi i ni, unrhyw beth y gall sefydliadau eraill fod wedi dweud wrthym neu unrhyw wybodaeth y mae defnyddwyr wedi'i rhoi i ni am y cwmni.

Oni bai bod y wybodaeth yr ydym wedi'i derbyn ar gael yn gyhoeddus eisoes, neu bod gennym ganiatâd y 'person' (yr unigolyn, y cwmni neu'r bartneriaeth) perthnasol, rydym wedi'n gwahardd rhag ei rhannu gyda'r cyhoedd. Dewch i wybod mwy ynghylch pa wybodaeth y gallwn ei rhannu gyda chi.

A yw'r wybodaeth hon wedi ateb eich cwestiwn? Os nad yw, parhewch ac atebwch y cwestiwn nesaf.

### 2. A yw eich cais ynghylch unigolyn penodol?

Os ydyw, ac rydych am gael gwybod a yw unigolyn penodol wedi'i awdurdodi gennym ni, gwiriwch y Gofrestr Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n rhestru'r holl gwmnïau ac unigolion yr ydym yn eu rheoleiddio. Hefyd, rydym yn cyhoeddi manylion y cwmnïau hynny nad ydynt wedi'u hawdurdodi gennym ni ac unigolion y dylech eu hosgoi.

Ni allwn roi gwybodaeth arall ynghylch unigolyn penodol. Hefyd, gall peth gwybodaeth sydd gennym ynghylch unigolyn byw, y gellir ei adnabod, gynnwys data personol yr unigolyn hwnnw.

Os yw eich cais am wybodaeth bersonol sydd gennym ynghylch unigolyn sy'n rhywun oni bai amdanoch chi eich un, ni fyddwn yn medru ei datgelu i chi heb ganiatâd yr unigolyn perthnasol.

A yw'r wybodaeth hon wedi ateb eich cwestiwn? Os nad yw, parhewch ac atebwch y cwestiwn nesaf.

**3. A yw eich cais ynghylch p'un a ydym yn ymchwilio i gwmni neu unigolyn ar hyn o bryd?**

Os ydyw, gallwch weld manylion pwy yr ydym yn ymchwilio iddynt a chanlyniad ein hymchwiliadau yn adran Rhybuddion Terfynol ein gwefan.

Fel arfer, nid ydym yn cyhoeddi'r ffaith ein bod yn ymchwilio i rywun. Mae hyn yn rhannol er mwyn gwarchod pa mor effeithiol yw ein hymchwiliad, oherwydd gallai cyhoeddusrwydd annog pobl i ddinistrio neu guddio gwybodaeth. Ac, yn rhannol, gallai cyhoeddi ein bod yn ymchwilio ddifrodi enw da rhywun.

Ond, unwaith y byddwn yn cymryd camau gorfodi ffurfiol, yn gyffredinol, rydym yn cyhoeddi manylion ar ein gwefan ar ffurf Rhybudd 'Terfynol' neu 'Penderfyniad' a datganiad i'r wasg cysylltiedig.

A yw'r wybodaeth hon wedi ateb eich cwestiwn? Os nad yw, parhewch ac atebwch y cwestiwn nesaf.

**4. A yw eich cais ynghylch yr amser y mae hi'n ei gymryd i ni benderfynu p'un a ydym yn cymeradwyo neu'n gwrthod cais i fod yn awdurdodedig?**

Os ydyw, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am yr amser yr ydym yn ei gymryd naill ai i gymeradwyo neu argymell gwrthod cais i fod yn awdurdodedig.

Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi manylion ynghylch ceisiadau Swyddogaeth Dylanwad Sylweddol (*Significant Influence Function* (SIF)) am gymeradwyaeth gan gwmnïau sydd wedi'u rheoleiddio gan yr FCA yn unig ac ystadegau eraill.

A yw'r wybodaeth hon wedi ateb eich cwestiwn? Os nad yw, parhewch ac atebwch y cwestiwn nesaf.

**5. A yw eich cais ynghylch yr hyn yr ydym yn gwario ein harian arno, neu sut yr ydym yn ei wario?**

Os ydyw, mae'n bosib y cewch hyd i'r ateb i'ch cwestiwn yma gan ein bod yn cyhoeddi llawer o wybodaeth ynghylch sut yr ydym yn gwario ein harian.

Ar y wefan hon, cewch hyd i fanylion ein Cynllun Busnes a'n cyllideb, costau cyffredinol digwyddiadau cyhoeddus yr ydym wedi'u trefnu a manylion diannod lwfansau a threuliau y mae ein cadeirydd ac aelodau gweithredol ein bwrdd yn eu hawlio.

A yw'r wybodaeth hon wedi ateb eich cwestiwn? Os nad yw, parhewch ac atebwch y cwestiwn nesaf.

**6. A yw hwn yn gais ynghylch nifer y cwynion yr ydym wedi'u derbyn ynghylch cwmni neu unigolyn penodol?**

Os ydyw, rydym eisoes yn cyhoeddi manylion am y cwynion y mae banciau, yswirwyr, benthycwyr a chwmnïau eraill yn eu derbyn, a beth oedd manylion y cwynion hynny. Gweler y data diweddaraf a'r cwmnïau a'r cynnyrch ariannol y cwynir amdanynt fwyaf.

Os gofynnir i ni a ydym wedi derbyn cwyn ynghylch cwmni neu unigolyn penodol erioed, ni allwn roi sylwadau.

Nid ydym yn ymchwilio i gwynion gan ddefnyddwyr unigol – dyna waith y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol.

A yw'r wybodaeth hon wedi ateb eich cwestiwn? Os nad yw, parhewch ac atebwch y cwestiwn nesaf.

**7. A yw eich cais ynghylch gwybodaeth nad yw wedi'i datgelu'n flaenorol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth?**

Os ydyw, mae'n bosib y byddai gennych ddiddordeb mewn gweld yr ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth blaenorol y credwn y gallent fod o ddiddordeb cyhoeddus ehangach. Gweler ein Log Datgelu. A yw'r wybodaeth hon wedi ateb eich cwestiwn? Os nad yw, cwblhewch y ffurflen gais Rhyddid Gwybodaeth a ganlyn.